# Datganiad ar Gaethwasiaeth Fodern a Chyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

2024-2025



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Overview**
Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod fod ganddo gyfrifoldeb fel cyflogwr i fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer achosion o gaethwasiaeth fodern ac i roi gwybod i'r corff perthnasol am achosion neu bryderon o'r fath. Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n foesegol gydag uniondeb a thryloywder ym mhopeth a wnawn ac i roi systemau a rheolyddion effeithiol ar waith i amddiffyn rhag i unrhyw fath o gaethwasiaeth fodern ddigwydd o fewn y Cyngor na'n cadwyn gyflenwi.

Ym mis Mehefin 2018, cofrestrodd Bwrdd Gweithredol y Cyngor i *Gôd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi* sy'n ceisio sicrhau bod pob sefydliad sector cyhoeddus yn cymryd camau i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesol.

Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a hwn yw datganiad Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyflogaeth foesegol a chadwyni cyflenwi ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu yn 2025.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerodd y Cyngor i ddeall yr holl risgiau caethwasiaeth fodern posib yn gysylltiedig â'i waith ac i roi ar yn eu lle gamau sy'n ceisio sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth na masnachu pobl yn ei waith ei hun nac yn ei gadwyni cyflenwi.

**Caethwasiaeth Fodern**
Gall caethwasiaeth fodern ddigwydd mewn sawl ffurf, gan gynnwys masnachu pobl, llafur gorfodol, caethwasanaeth a chaethwasiaeth. Rydym yn gweithio gyda nifer o gyflenwyr gwahanol o gorfforaethau mawr, isgontractwyr i gyflenwyr lleol bach i ganolig sy'n darparu ystod eang o wasanaethau. Mae aelodau ein cadwyn gyflenwi yn amrywiol, nid yn unig o ran y nwyddau a gwasanaethau maen nhw'n eu darparu ond hefyd ym maint a strwythur eu sefydliadau. Rydym yn annog busnesau llai i wneud cais i ymuno â'n cadwyn gyflenwi er mwyn hyrwyddo mentrau busnes lleol yng Nghymru.

**Polisïau**
Mae gennym nifer o bolisïau mewnol i sicrhau ein bod yn gwneud ein gwaith mewn ffordd foesegol a thryloyw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Polisi Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.** Mae'r polisi hwn yn nodi'r cyd-destun ar gyfer arferion cyflogaeth a masnachu moesegol ar gyfer y Cyngor a'n cadwyni cyflenwi ac mae'n amlinellu ein hymrwymiad, y camau a gymerwyd a'r camau a gynlluniwyd yn y dyfodol i fynd i'r afael â risgiau caethwasiaeth a masnachu pobl.
- **Polisi recriwtio**. Rydym yn gweithredu polisi recriwtio trylwyr, gan gynnwys cynnal archwiliadau cymhwysedd i weithio yn y DU ar gyfer yr holl staff a gyflogir yn uniongyrchol, a bod asiantaethau ar fframweithiau cymeradwy yn cael eu harchwilio er mwyn cael sicrwydd y cafwyd cliriad cyn-cyflogi ar gyfer staff asiantaeth, i ddiogelu rhag masnachu pobl neu unigolion yn cael eu gorfodi i weithio yn groes i'w hewyllys.
- **Cyfleoedd cyfartal**. Fel cyflogwr cyfleoedd cyfartal mae gennym ddyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac rydym wedi

ymrwymo'n llawn i greu a sicrhau amgylchedd gwaith anwahaniaethol a pharchus i'n staff. Mae gennym nifer o reolyddion gwahanol i ddiogelu staff rhag cael eu trin yn wael a/neu eu hecsploetio. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cyfraddau cyflog teg, amodau a thelerau cyflogaeth teg, a chyfleoedd hyfforddiant a datblygu. Rhaid i bob gweithiwr fabwysiadu agwedd gadarnhaol, agored a theg a sicrhau y cedwir at Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor a'i fod yn cael ei weithredu'n gyson heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oed, rhywedd, ailbennu rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

- Hefyd, mae **Safonau'r Gymraeg** yn gofyn inni 'sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' a dylid defnyddio'r egwyddor hon o fewn y Cyngor a'n cadwyn gyflenwi.
- **Diogelu a Chwythu'r Chwiban**. Mae ein polisïau a gweithdrefnau yn cynnig canllawiau clir fel bod ein gweithwyr yn deall yn iawn sut i leisio pryderon diogelu am y ffordd y mae cydweithwyr neu bobl yn darparu ein gwasanaethau yn cael eu trin, neu am arferion o fewn ein busnes neu gadwyn gyflenwi heb ofni dial.
- **Cod Ymddygiad Gweithwyr a chanllawiau ar safonau ymddygiad**. Mae'r rhain yn rhoi gwybod i weithwyr am y gweithredu a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. Mae'r Cyngor yn ceisio cynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad ac ymddygiad moesegol gweithwyr.

**Progress to Date:**

- Mae gan y Cyngor wariant trydydd parti blynyddol o tua £310m y flwyddyn. Ymgymerir â diwydrwydd dyladwy i liniaru'r risgiau wrth gaffael contractau mewn meysydd sy'n risg uchel o ran troseddau caethwasiaeth fodern, gan gynnwys adeiladu, glanhau, gweithgynhyrchu a dillad gwaith.
- Lle bo'n briodol, bydd y Cyngor, fel rhan o'i broses dendro a chontractio, yn gofyn am sicrwydd gan gyflenwyr a darpar gyflenwyr nad oes unrhyw un o'r mathau uchod o gaethwasiaeth fodern yn bodoli yn eu sefydliadau na'u cadwyni cyflenwi. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r cyflenwyr hynny gymryd cyfrifoldeb i geisio sicrwydd tebyg gan eu cadwyni cyflenwi eu hunain.
- Cynghorir staff sy'n ymwneud â gweithgareddau caffael i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ar Gaethwasiaeth Fodern a Chyflogaeth Foesegol drwy fodiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru.
- Cynhelir Asesiad Risg Cynaliadwy ar gaffael dros £25k, ac mae hyn yn mynd i'r afael â materion cyflogaeth foesegol.
- Mae cyflenwyr hefyd yn cael eu hannog i ymrwymo i Gôd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

**Gweithgareddau wedi'u cynllunio:**

Yn ystod 2024-25 fel rhan o'n hymrwymiad i atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, bydd y Cyngor yn ymgymryd â'r gweithgarwch canlynol:-

- Parhau i wneud staff yn ymwybodol o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a'u hysbysu o'r camau priodol os ydynt yn amau achos o gaethwasiaeth neu fasnachu pobl.
- Sicrhau bod ystyriaeth o'r risgiau caethwasiaeth fodern a mesurau atal yn cael eu hychwanegu at strategaethau caffael bod telerau ac amodau contract yn cynnwys cyfeiriadau at gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Cymeradwywyd y datganiad hwn ar 15/07/24 gan Cabinet.

Llofnod: (Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol)

Ann Davies